



Croeso i Newyddlen gyntaf Ymddiriedolaeth Addoldai Cymru. Ein bwriad yw i hysbysu Cyfeillion yr Ymddiriedolaeth, a'r rhai sydd â diddordeb ynddi, am ein gweithgareddau. Byddwn yn rhoi ychydig o hanes yr adeiladau sydd yng ngofal yr Ymddiriedolaeth, ynghyd â newyddion am waith atgywierio ac am brosiectau eraill yr Ymddiriedolaeth.


Caiff ei chyhoeddi ddwywaith y flwyddyn yn rhad am ddim i aelodau Cyfeillion YAC – er bod y ddau rifyn cyntaf yn cael eu dosbarthu yn fwy eang na hynny yn rhad am ddim .

## Cyfeillion

Mae'n bleser gennym gyhoeddi sefydlu Cyfeillion Ymddiriedolaeth Addoldai Cymru. Os hoffech ein cefnogi a'n helpu ni yn ein gwaith, dewch yn aelod o'r Cyfeillion –mae'n agored i bawb ac yn costio £10 y flwyddyn ; amgaewn ffurflen aelodaeth a ffurflen archeb banc gyda'r newyddlen. Neu cysylltwch â swyddfa'r Ymddiriedolaeth.

## Drysau Agored: Dyddiau Treftadaeth Ewropeaidd

Bydd dau o adeiladau'r Ymddiriedolaeth, Libanus a Bethania, ar agor i'r cyhoedd ar ddyddiau agored y cynllun Drysau Agored eleni, fel rhan o'r Dyddiau Treftadaeth Ewropeaidd.



Tu mewn Capel Bethania, Maesteg

Bydd y dyddiau Drysau Agored yn rhoi'r cyfle i bawb ymweld â Libanus a Bethania, adeiladau nad ydynt ar agor i'r cyhoedd yn arferol gan eu bod yn disgwyl gwaith atgyweirio. Bydd yr adeiladau ar agor rhwng 10.00 a.m. a 4.00 p.m. ar y tri dydd Sadwrn: 9, 16, 23 o Fedi. Fe gyfyngir ar fynediad yn Libanus oherwydd cyflwr yr adeilad. Yn anffodus, mynediad cyfyngedig

### Dyddiau Treftadaeth Ewropeaidd

Mae Dyddiau Treftadaeth Ewropeaidd yn fenter gan Gyngor Ewrop ac fe drefnir y digwyddiad gan Ymddiriedolaeth Ddinesig Cymru. Ceir rhagor o wybodaeth ar:

[www.civictrustwales.org](http://www.civictrustwales.org) or  
[www.heritagedays.net](http://www.heritagedays.net).

Mae rhestr lawn o ddigwyddiadau yng Nghymru ar gael oddi wrth Ymddiriedolaeth Ddinesig Cymru, 3ydd Llawr, Empire House, Caerdydd CF10 5 FN, rhif ffôn 029 2048 4606.

iawn i bobl anabl sydd yn Libanus ar hyn o bryd. Ym Methania, er bod peth anhawster, mae'r rhan fwyaf o'r llawr isaf yn hwylus i bawb.

## Hanfod Hanes - i'r Gymru Fydd

Partneriaeth yw datliadau *Hanfod Hanes - i'r Gymru Fydd* rhwng yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Cadw, Amgueddfa Cymru a'r Gronfa Loteri Dreftadaeth, a fydd yn parhau hyd at dymor yr Hydref. Ceir rhagor o wybodaeth yn:

[www.hanfodhanes.org.uk](http://www.hanfodhanes.org.uk)

**Mae gwefan yr  
Ymddiriedolaeth wrthi'n  
cael ei baratoi. Cadwch  
olwg am :**

[www.addoldaicymru.org](http://www.addoldaicymru.org) &  
[www.welshreligiousbuildings.org](http://www.welshreligiousbuildings.org)

# Adeiladau yng ngofal yr Ymddiriedolaeth

Mae'r Ymddiriedolaeth yn derbyn i'w gofal ddetholiad cynrychioliadol o adeiladau crefyddol di-angen nad ydynt yn Anglicanaidd sydd o ddi-ddordeb hanesyddol neu bensaernïol arbennig. Hyd yma mae'r Ymddiriedolaeth wedi derbyn tri adeilad - Libanus, Hen Dy Cwrdd a Bethania, ac mae trosglwyddiad Beili Du ar fin ei gwblhau. Mae trosglwyddiad capel Undodaidd nodedig Yr Hen Capel, Llwynrhydowen mewn llaw, ac mae'r Ymddiriedolaeth wrthi'n edrych ar adeiladau eraill.

## Capel Libanus

Capel Bedyddwyr syml yw Libanus, sydd yn wych iawn oddi mewn. Fe'i leolir yn ymyl Llansadwrn, Sir Gaerfyrddin ac fe'i rhestrwyd yn Gradd II\*. Adeiladwyd yr adeilad presennol yn 1841 ac fe'i helaethwyd yn niwedd yr 19eg ganrif. Caewyd y drysau yn 1998. Mae'n enghraifft blaen ond anarferol o gynnar o gapel deulawr gwledig gyda'r fynedfa yn y talcen. Mae tu mewn y capel o safon, heb fawr o ôl newid arno ac mae'n meddu ar nodweddion gwreiddiol. Mae stabl ac ysgoldy o ddiwedd y 19eg ganrif ynghlwm wrth y capel.



Mae angen gwaith atgyweirio helaeth ar Libanus ac mae'r Ymddiriedolaeth wedi llunio rhaglen waith amlrannog ar ei gyfer gyda Alwyn Jones Penseiri: Architects o Ffynnon Tâf. Caiff tu allan yr adeilad sylw i ddechrau. Mae'r Ymddiriedolaeth yn gweithio'n galed i godi arian ar gyfer y gwaith. Mae cryn ddi-ddordeb a chefnogaeth yn ardal Llansadwrn ac fe ffurfiwyd grŵp Cyfeillion Libanus yn lleol.



### Dyddiau agored

Fe fydd Libanus ar agor ar y dyddiau Drysau agored – gweler tudalen 1.

**HELP!! Rydan ni wedi methu dod o hyd i unrhyw hen luniau o Libanus. Os ydych yn gwybod am rai, cyylltwch â'r Ymddiriedolaeth – fe fydd hyd yn oed lluniau lled ddiweddar yn ddefnyddiol iawn!**



## Hen Dy Cwrdd

Capel Undodaidd yn Nhrecynon yn ymyl Aberdâr yw Hen Dy Cwrdd, wedi'i restru yn Gradd II. Caewyd y capel yn 1988. Adeilad canolig ei faint a godwyd yn 1862 yw'r capel presennol, ac fe'i cynlluniwyd gan y pensaer Evan Griffiths o Aberdâr. Mae gan Hen Dy Cwrdd etifeddiaeth arbennig o gyfoethog gyda'i gysylltiadau hanesyddol ac mae'n cynrychioli dilyniant traddodiad ymneilltuaeth Cymru.

Mae'r capel wedi bod yn wag ers iddo gau, ac er bod ei gyflwr yn gyffredinol yn dda, mae angen cryn waith atgyweirio. Y flaenoriaeth gyntaf yw ymgymryd â gwaith brys ar raddfa fechan. Bydd gwaith atgyweirio mwy sylweddol yn dilyn, ar ôl cwblhau astudiaeth bellach a gwaith datblygu gan Page and Dean Consulting.

Gweler erthygl ar dudalen 4





## Capel Bethania

Adeiladwyd Bethania yn 1908 ar safle capel cynharach, ac mae'n enghraifft nodedig o'r brwdfrydedd dros adeiladu capeli yn sgîl Diwygiad enwog Evan Roberts yn 1904-5. Mae'n gapel Bedyddwyr mawr, trefol, sydd o bwys pensaernïol, gwaith y pensaer Cymreig adnabyddus William Beddoe Rees, ac fe'i rhestrwyd yn Radd II\*.

Mae'r Ymddiriedolaeth wedi comisiynu arolwg cyflwr o'r adeilad gan Acanthus Holden Architects, ac mae'n chwilio am gyllid ar gyfer ei atgyweirio. Mae rhagor o waith datblygu mewn llaw er mwyn dod o hyd i ffyrdd o wneud y defnydd gorau posib o'r adeilad ar gyfer defnydd cymunedol ac arall, unwaith y bydd yr adeilad wedi'i atgyweirio.

**Dyddiau agored** - Fe fydd Bethania ar agor ar y dyddiau Drysau Agored – gweler tudalen 1.

## Trysor!

Mae nifer o bapurau gwych a hynod ddiddorol wedi goroesi ym Methania, diolch i ofal sawl cenhedlaeth o ysgrifenyddion - maent yn cynnwys nifer o lyfrau cofnodion a gohebiaeth gan Beddoe Rees, pensaer y capel, a sawl dyluniad. Maent hefyd yn cynnwys y Fanyleb a'r Rhestrau Meintiau gwreiddiol sydd yn cynnwys gwybodaeth sydd o gymorth i'n penseiri wrth atgyweirio'r adeilad. Mae'r Ymddiriedolaeth yn asesu'r deunydd yma ar hyn o bryd gan ystyried ei ddefnyddio fel sail ar gyfer peth o'r deunydd dehongli a gaiff ei gynhyrchu ar gyfer Bethania. Bydd y papurau ar gael yn Archifdy Morgannwg maes o law.



## Beili Du

Capel Eglwys Bresbyteraidd Cymru yw Beili Du, ym Mhentrebach yn ymyl Pontsenni, ac mae yn y broses o gael ei drosglwyddo i'r Ymddiriedolaeth. Adeiladwyd y capel cyntaf yn 1800, ac fe'i ail hadeiladwyd yn 1868. Fe'i rhestrwyd yn Gradd II, ac fe'i caewyd yn 1998. Mae Beili Du yn enghraifft atyniadol a hynod o wreiddiol o fath o gapel cynnar a fu unwaith yn gyffredin: capel bychan gwledig gyda wal hir â dau ddrws, ac ar un pen iddo stabl ac ystafell uwch ei ben ar gyfer y pregether teithiol.

Bydd angen arolwg cyflwr trylwyr ar yr adeilad, cyn gwneud waith atgyweirio.



# Hen Dŷ Cwrdd

Ar ddechrau'r ddeunawfed ganrif bu i ddiwinyddiaeth Galfinaidd uniongred Cymru anghydfurfiol - y gred yn achubiaeth 'arbennig' y detholedig rai – roi lle mewn rhai mannau i Arminiaeth – y gred mewn achubiaeth 'gyffredinol'.



O'r 1740au ymlaen, datblygodd Arminiaeth yn Ariaeth, diwinyddiaeth oedd yn tueddu i fod yn wrth-Drindodaidd. Yn y diwedd, yn sgîl effeithiau'r Chwyldro Ffrengig yn polareiddio yn ideolegol, llithrodd Ariaeth ymhellach fyth i'r chwith a dod yn agored Undodaidd. Bu i'r Hen Dŷ Cwrdd yn Nhrecynon brofi holl rym y cynryfiadau diwinyddol yma.

Sefydlwyd y capel yn 1751, y capel anghydfurfiol cyntaf yng nghwm Cynon. Cafodd gweinidog cyntaf y capel, Thomas Lewis, ei ddiswyddo oherwydd ei ddaliadau ceidwadol (Calfinaidd) a daeth yr Armin, Owen Rees, yn weinidog yn ei le. Yn ystod ei weinidogaeth, newidiodd Rees o fod yn Armin i fod yn Ariad. Thomas Evans, neu Tomos Glyn Cothi (1764 – 1833) fel yr adnabyddir ef orau, oedd lladmerydd y newid o Ariaeth i Undodiaeth yng Nghymru. Yn 1796, roedd Evans wedi sefydlu'r capel Undodaidd cyntaf yng Nghymru yn ôl y gred a hynny ger Brechfa yn Sir Gaerfyrddin. Wedi dod i wrthdrawiad gyda'r awdurdodau am ddatgan ei gefnogaeth i'r Chwyldro Ffrengig, bu'n dihoeni yng Ngharchar Caerfyrddin am ddwy flynedd. Yn 1811 derbyniodd wahoddiad gan yr Hen Dŷ Cwrdd i ddod yn weinidog Undodaidd yno. Pan fu Evans farw yn 1833 roedd wedi bod yn weinidog yn Nhrecynon am dros ugain mlynedd. Claddwyd ei weddillion ym mynwent y capel.



Cofeb i Tomos Glyn Cothi (Thomas Evans)

Wedi i Evans farw cafwyd dilyniant o weinidogion Undodaidd, a'r rheini'n weithredol mewn amrywiol ffyrdd yng ngwleidyddiaeth radicalaidd y cyfnod a chanddynt ddylanwad ymhell y tu hwnt i'w cryfder o ran niferoedd. Cafwyd dynion fel John Jones (1802 – 1863) yn weinidog ar y capel ac roedd ef yn cefnogi Siartiaeth yn hollol agored trwy gyfrannu nifer o erthyglau i **Udgorn Cymru**, papur newydd y Siartwyr Cymreig. Yn 1847 sefydlodd y cylchgrawn gwleidyddol radicalaidd Undodaidd ac anenwadol, **Yr Ymofynnydd**.

Yn y cyfnod rhwng y ddau Ryfel Byd cafwyd E.R. Dennis yn cefnogi cerddoriaeth a drama leol; roedd yn un o sefydlwyr Theatr Fach Aberdâr. Ei olynnydd oedd y bardd a'r heddychwyr D. Jacob Davies (1916 - 1974) a wnaeth gyfraniad clodwiw i fywyd cyhoeddus Cymru fel newyddiadurwr a darlledwr. Ymgyrchodd yn llwyddiannus dros addysg cyfrwng Cymraeg yng Nghwm Cynon ac ysgrifennodd hanes dau-ganmlynedd yr Hen Dŷ Cwrdd (1951). J. Eric Jones oedd y gweinidog olaf i wasanaethu'r gynulleidfa nodedig yma. Dechreuodd ef ar ei weinidogaeth yn 1962 a bu'n weinidog yn yr Hen Dŷ Cwrdd nes i'r capel gau fel man addoli yn niwedd y 1980au.

David Barnes, Gorffennaf 2006

Mae'r Ymddiriedolaeth yn derbyn cymorth grant gan Cadw i gynnal rhan sylweddol o'i costau beunyddiol. Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd yn derbyn arian ar hyn o bryd oddi wrth yr Esmée Fairbairn Foundation tuag at gostau craidd. Er gwaethaf y cymorth hael hwn, mae'r Ymddiriedolaeth yn wynebu her barhaol i godi digon o arian ar

gyfer cyflawni ei gwaith. Fe fyddai'r Ymddiriedolaeth yn gwerthfawrogi unrhyw help, ac fe fyddai'n ddiolchgar iawn am roddion, mawr neu fychan.

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â ni. Byddwn yn falch iawn o glywed gennych chi!

Rheolwr yr Ymddiriedolaeth:  
Gruff Owen

Swyddfa: 10 Heol y Dŵr, Penygroes,  
Caernarfon Gwynedd LL54 6LR  
Ffôn: 01286 881365  
ebost: [post@yacwrbt.plus.com](mailto:post@yacwrbt.plus.com)

Elusen Gofrestredig 1084030  
Cwmni Cyfyngedig Drwy Warant 3870343  
Cofrestrwyd yng Nghymru